




Achredu

Polisi datblygu casgliadau Oriel
Ynys Môn



ACCREDITED
MUSEUM

2017

Enw'r amgueddfa: Oriol Ynys Môn

Enw'r corff llywodraethu: Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad cymeradwyo'r polisi hwn gan y corff llywodraethu: *Nodwch y dyddiad*

Gweithdrefn ar gyfer adolygu'r polisi:

Cyhoeddir y polisi datblygu casgliadau a'i adolygu o bryd i'w gilydd, o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Dyddiad adolygiad nesaf y polisi: Hydref 2019

Hysbysir *Cyngor Celfyddydau Lloegr / CyMAL* : *Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru* am unrhyw newidiadau i'r polisi datblygu casgliadau, ac am oblygiadau unrhyw newidiadau o'r fath i'r casgliadau yn y dyfodol.

1. Y berthynas â pholisïau/cynlluniau eraill o eiddo'r sefydliad

1.1. Dyma ddatganiad o bwrpas yr amgueddfa:

Mae Oriol Ynys Môn yn ymdrechu i ofalu am, dehongli a hyrwyddo treftadaeth unigryw Ynys Môn. Mae'n ymdrechu i ysgogi creadigrwydd, a darparu cyfleoedd i drigolion yr ynys ac ymwelwyr ddysgu a mwynhau.

1.2. Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau y caiff y broses derbyn a gwaredu ei chwblhau mewn modd agored a thryloyw.

1.3. Trwy ddiffiniad, mae gan yr amgueddfa bwrpas hirdymor ac mae'n cadw casgliadau mewn ymddiriedaeth er budd y cyhoedd mewn perthynas â'i hamcanion datganedig. Mae'r corff llywodraethu, felly, yn derbyn yr egwyddor bod yn rhaid sefydlu rhesymau curadurol cadarn cyn caffael unrhyw eitem i'r casgliad, neu cyn gwaredu unrhyw eitemau sydd yng nghasgliad yr amgueddfa.

1.4. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig y byddir yn derbyn eitemau sydd y tu allan i'r polisi datganedig cyfredol.

1.5. Wrth dderbyn ychwanegiadau i'w chasgliadau, mae'r amgueddfa yn cydnabod ei chyfrifoldeb i sicrhau y bydd y gofal am gasgliadau, y trefniadau dogfennu a'r defnydd o'r casgliadau'n ateb gofynion y Safon Achredu i Amgueddfeydd. Bydd yn cynnwys defnyddio gweithdrefnau sylfaenol SPECTRUM i reoli casgliadau. Bydd yn ystyried cyfyngiadau ar gasglu a geir oherwydd ffactorau fel trefniadau annigonol ar gyfer staffio, storio a gofalu am gasgliadau.

- 1.6. **Bydd yr amgueddfa'n ymarfer diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â derbyn, boed hynny trwy bryniant, rhodd, cymynrodd neu gyfnewid, unrhyw wrthrych neu enghraifft oni bai fod y corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol yn fodlon y gall yr amgueddfa sicrhau teitl dilys i'r eitem dan sylw.**
- 1.7. **Ni fydd yr amgueddfa'n ymgymryd â gwaredu eitemau gyda'r prif amcan o gael arian.**

2. Hanes y casgliadau

Agorwyd Oriol Ynys Môn yn 1990 ac mae'n cynnwys casgliadau sy'n ymwneud â hanes a diwylliant Ynys Môn. Dechreuodd casgliad yr amgueddfa yn gynnar yn y 1980au pan brynwyd casgliad Charles F Tunnicliffe. Yn ddiweddarach bu Kyffin Williams yn ymhél â'r gwasanaeth a oedd yn datblygu ac fe roddodd nifer o weithiau celf a gwrthrychau i'r amgueddfa. Erbyn ei farw yn 2006 roedd o wedi rhoi bron i 400 o'u baentiadau a'u ddarluniau ei hun i'r Oriol, ynghyd â nifer o weithiau celf arwyddocaol gan artistiaid Cymreig eraill.

Ochr yn ochr â'r casgliad Celf sylweddol, mae gan Oriol Ynys Môn gasgliadau archeolegol hefyd. Mae casgliad da o wrthrychau o gyfnodau Mesolithig a Neolithig Ynys Môn, gyda nifer sylweddol o ddeunydd lithig yn y casgliad. Mae gwrthrychau o'r Oes Efydd yn y casgliad hefyd yn cynnwys nifer o botiau claddu, arteffactau efydd ac addurniadau aur personol. Mae yna hefyd eitemau prin o'r Oes Haearn, yn benodol arteffactau a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach yn y 1940au.

Mae'r casgliad yn cynnwys nifer o eitemau hanes cymdeithasol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau o'r cartref, tecstilau a rhai gwisgoedd. Maent oll yn arwyddocaol i Ynys Môn a'i phobl.

O ran datblygu casgliad yr amgueddfa, mae OYM yn dibynnu'n helaeth ar roddion gan y cyhoedd, er yn ddiweddar derbyniodd yr Oriol fodrwy aur fylchgron o'r Oes Efydd gyda chyllid gan brosiect Hel Trysor Hel Straeon ar y cyd ag Amgueddfa Cymru.

3. Trosolwg o'r casgliadau presennol

Charles Tunnicliffe:

Y casgliad hwn yw'r un uned unigol fwyaf o fewn y casgliadau ac mae'n cynnwys y deunyddiau a brynwyd yn wreiddiol yn 1981 yn cynnwys 56 o lyfrau brasluniau a dros 350 o ddarluniau mesuredig yn ogystal â chyfrolau o frasluniau paratoadol, darluniau llyfrau, darluniau dyfrlliw gorffenedig, astudiaethau bywyd a llawysgrifau. Ychwanegwyd rhai engrafiadau cynnar, llyfrau a phortreadau i'r casgliad yn ddiweddarach. Hwn yw'r casgliad mwyaf cyflawn sy'n bodoli o waith Charles Tunnicliffe ac mae'n werthfawr o safbwynt ei

gynnwys artistig a gwyddonol.

Kyffin Williams

Ym mis Mehefin 1990 rhoddodd Kyffin Williams gasgliad o dros 300 o frasluniau a darluniau'n anrheg i'r oriel, ac yn dilyn hynny rhoddodd nifer o ddarluniau a phaentiadau olew. Mae hwn yn gofnod topograffigol, hanesyddol ac artistig pwysig o'r ynys ac mae'n ased amhrisiadwy o ran arddangosfeydd ac ymchwil.

Edith a Gwenddolen Massey

Prynwyd y casgliad hwn o ddarluniau botanegol gan y Cyngor ym 1985 ac mae'n cynnwys dros 500 o astudiaethau dyfrlliw o dan y teitl 'Blodau Gwyllt Ynys Môn'. Lluniwyd yr astudiaethau hyn yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Nodir enwau Cymraeg, Saesneg a Lladin pob rhywogaeth ac mae'n ffurfio cofnod botanegol pwysig.

Casgliad Celf Ynys Môn

Mae'r casgliad hwn yn deillio o waith Cyngor Cymuned Gwledig Ynys Môn yn ystod y degawdau yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae'n cynnwys yn bennaf waith gan artistiaid o Ynys Môn, ac a gasglwyd er mwyniant ac addysg pobl yr ynys. Cyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 gwasanaeth amgueddfeydd Cyngor Sir Gwynedd oedd ceidwaid y casgliad hwn ond cafodd ei drosglwyddo i Gyngor Sir Ynys Môn.

Ers 1996 ychwanegwyd gwaith gan artistiaid eraill i'r casgliad, yn cynnwys artistiaid o Ynys Môn neu waith sydd â'r ynys yn destun iddo.

Archeoleg, Hanes Natur a Hanes Cymdeithasol

Deunydd archeoleg yw craidd y casgliad. Mae'r deunydd yn cynnwys casgliadau Hynafiaethwyr Ynys Môn a deunydd a gafwyd o gloddfeydd Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Mae un casgliad mwynol/daearegol bychan. Mae'r deunyddiau hanes cymdeithasol yn adlewyrchu cymunedau gwledig, morol a diwydiannau bach yr ynys.

4. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu yn y dyfodol

Bydd casgliad Charles Tunnicliffe yn parhau i ehangu er mwyn creu cofnod lawn o fywyd a gwaith yr artist. Rhoddir sylw penodol i lenwi'r bylchau yn ei waith ysgythru ac engrafiad cynnar, darluniau dyfrlliw gorffenedig a chyfansoddiadau mawr, llyfrau a ysgrifennwyd neu a ddarluniwyd, darluniau gwreiddiol a ddefnyddiwyd ar gyfer darlunio llyfrau a gweithiau gorffenedig sy'n ymwneud â'r brasluniau maes a stiwdio sydd eisoes yn rhan o'r casgliad.

Bydd y gwasanaeth hefyd yn parhau i dderbyn gwaith celf hanesyddol a chyfoes gan artistiaid a anwyd neu a fu'n gweithio ar yr ynys, ddoe a heddiw, beth bynnag fo testun y gwaith. Byddwn yn derbyn gwaith gan artistiaid tu allan i'r ynys y mae Ynys Môn neu ei phobl yn destun iddo, ond rhoddir llai o flaenoriaeth i hyn.

Bydd y gwasanaeth yn derbyn eitemau archeolegol o'r holl gyfnodau cyn hanes hyd at y cyfnodau ôl-ganol oesol a diwydiannol. Byddwn yn derbyn deunyddiau a gloddiwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn unol â'r cynllun gwaddoli. Cedwir yr archif cloddio yn Archifdy Ynys Môn. Byddwn yn derbyn deunydd sydd heb ei ddilysu i lenwi bylchau yn y casgliadau i bwrpasau addysgu/trafod.

Cesglir deunydd nwmismatig os oes arwyddocâd lleol penodol iddo yn unig. Nid

yw'n fwriad creu casgliad cyfeiriol cynhwysfawr yn y maes hwn.

Byddwn yn derbyn deunydd hanes cymdeithasol – ôl-ganol oesol hyd heddiw – os bydd lle'n caniatáu, er mwyn datblygu arddangosfeydd a'r gwasanaeth dysgu.

Cesglir deunyddiau sy'n ymwneud â phobl neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn hanes Ynys Môn.

Cesglir gwisgoedd a thecstilau er mwyn datblygu hanes tecstilau Ynys Môn yn unig.

Ni chesglir unrhyw ddrylliau na ffrwydron rhyfel.

Bydd deunydd daearegol yn cael ei dderbyn er mwyn adeiladu casgliad cynhwysol o greigiau a mwynau Ynys Môn ar gyfer cyfeirio ato, astudio ac arddangos.

5. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu

Dim ond ers 1990 mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi bod yn weithredol. Mae gwaith casglu wedi bod yn benodol a gan fod lle yn brin ni dderbyniwyd deunyddiau diangen neu ddeunyddiau sydd y tu allan i'r polisi.

5.1 Mae'r amgueddfa'n cydnabod y bydd yr egwyddorion sy'n sail i resymoli a gwaredu yn cael eu penderfynu drwy broses adolygu ffurfiol sy'n dynodi pa gasgliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad, ac i'r gwrthwyneb. Ni fydd canlyniad yr adolygiad, ac unrhyw resymoli yn ei sgil, yn lleihau ansawdd nac arwyddocâd y casgliad a bydd yn arwain at gasgliad sy'n haws i'w ddefnyddio ac o dan reolaeth dda.

5.2 Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn bodloni safonau proffesiynol. Bydd y broses wedi'i chofnodi, a bydd yn agored a thryloyw. Bydd cyfathrebu clir rhwng yr amgueddfa a rhanddeiliaid allweddol ynghylch y canlyniadau a'r broses.

6. Fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer derbyn a gwaredu eitemau

6.1 Mae'r amgueddfa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i weithio oddi mewn i baramedrau Cod Moeseg y Gymdeithas Amgueddfeydd wrth ystyried derbyn a gwaredu eitemau.

7. Polisiâu casglu amgueddfeydd eraill

7.1 Bydd yr amgueddfa yn ystyried polisiau casglu amgueddfeydd eraill a chyrrff eraill sy'n casglu yn yr un meysydd pwnc neu rai cysylltiedig. Bydd yn ymgynghori â'r cyrrff hynny os ceir gwrthdaro buddiannau neu i ddiffinio meysydd y maent yn arbenigo ynddynt, er mwyn osgoi dyblygu diangen a gwastraffu adnoddau.

7.2 Cyfeirir yn benodol at yr amgueddfa(feydd)/corff(cyrrff) a ganlyn:

Storiell – Amgueddfa ac Oriell Gelf Gwynedd
Amgueddfa Forwrol Caergybi
Amgueddfa Cymru
Treftadaeth Menai / Canolfan Thomas Telford
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Charles F Tunnicliffe

8. Daliadau archifol (*dylech gynnwys y rhain pan yn briodol – gweler y canllawiau*)

8.1 Mae Oriell Ynys Môn yn gweithio'n agos ag Archifdy Ynys Môn ac yn trosglwyddo casgliadau archifol perthnasol yn ôl yr angen. Yn yr un modd, mae'r Archifdy wedi trosglwyddo gweithiau celf a gwrthrychau i gasgliad yr amgueddfa. Fodd bynnag, mae peth deunydd archifol ym meddiant OYM, yn benodol deunyddiau sy'n ymwneud â'r casgliadau. Er enghraifft, rhoddodd Kyffin Williams nifer fawr o ddeunydd archifol i'r oriell i gyd-fynd â'i weithiau celf. Mae'r rhain yn cynnwys llythyrau, ffotograffau a chatalogau arddangosfeydd. Rydym wedi eu defnyddio mewn arddangosfeydd ac rydym yn caniatáu i ymchwilywyr gael mynediad atynt. Mae archifau'n gysylltiedig â chasgliad Charles F Tunnicliffe hefyd ac maent wedi cael eu derbyn gan OYM.

Bydd Oriell Ynys Môn yn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at yr archifau hyn ac yn parhau i'w defnyddio mewn arddangosfeydd.

9. Caffael

9.1 Y polisi ar gyfer cytuno ar eitemau i'w caffael yw:

Mae'r amgueddfa'n cael cynnig gwrthrychau ar gyfer y casgliad yn rheolaidd. Y Rheolwr Adeilad a Chasgliadau sy'n delio â'r ymholiadau hyn, ac yna'n ymgynghori â'r Rheolwr Cyffredinol i drafod a yw'r eitemau'n addas ar gyfer y casgliad. Ni wneir unrhyw benderfyniad heb ganiatâd y Rheolwr Cyffredinol.

9.2 Ni fydd yr amgueddfa'n derbyn unrhyw wrthrych neu enghraifft oni bai ei bod yn sicr nad yw'r gwrthrych neu'r enghraifft wedi'i gael yn, neu wedi'i allforio o, wlad ei darddiad (neu unrhyw wlad yn y canol lle y bu

perchenogaeth gyfreithlon arno) yn groes i ddeddfau'r wlad honno. (I ddibenion y paragraff hwn, mae 'gwlad tarddiad' yn cynnwys y Deyrnas Unedig).

- 9.3 Yn unol ag amodau Cytundeb UNESCO yn 1970 ar Ddulliau o Wahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, a gadarnhawyd gan y DU i'w roi mewn grym o 1 Tachwedd 2002, a Deddf Masnachu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd yr amgueddfa'n gwrthod unrhyw eitemau a fasnachwyd yn anghyfreithlon. Caiff y corff llywodraethu ei arwain gan y canllawiau cenedlaethol ar gaffael cyfrifol ar eiddo diwylliannol a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005.

10 Gweddillion dynol

- 10.1 Gan fod yr amgueddfa'n dal neu'n bwriadu derbyn gweddillion dynol o unrhyw gyfnod, bydd yn dilyn y canllawiau yn yr "Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd" a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005.

11 Deunydd biolegol neu ddaearegol

- 11.1 Gyda golwg ar ddeunydd biolegol neu ddaearegol, ni fydd yr amgueddfa'n derbyn drwy unrhyw ddull uniongyrchol nac anuniongyrchol unrhyw enghraifft sydd wedi'i chasglu, ei gwerthu neu ei throsglwyddo fel arall yn groes i unrhyw ddeddf neu gytundeb cenedlaethol neu ryngwladol ar ddiogelu bywyd gwyllt neu warchod byd natur o eiddo'r Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad arall, heblaw drwy gael cydsyniad penodol gan awdurdod allanol priodol.

12 Deunydd archeolegol

- 12.1 Ni fydd yr amgueddfa'n derbyn deunydd archeolegol (gan gynnwys crochenwaith o gloddfeydd) mewn unrhyw achos lle y mae gan y corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol unrhyw reswm dros amau bod yr amgylchiadau wrth eu cael wedi golygu methiant i ddilyn y gweithdrefnau cyfreithiol priodol.
- 12.2 Yn Lloegr, Cymru, a Gogledd Iwerddon mae'r gweithdrefnau yn cynnwys adrodd i'r tiffeddiannwr neu ddeiliad y tir ar ganfyddiadau ac i'r awdurdodau cywir yn achos trysor posibl (h.y. y Crwner ar gyfer Trysorau) fel y'i diffinnir gan Ddeddf Trysor 1996 (ac a ddiwygiwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

13 Eithriadau

13.1 Ni cheir eithriadau i'r cymalau uchod oni bai fod yr amgueddfa yn:

- **gweithredu fel storfa gymeradwy allanol, ar gyfer deunydd o darddiad lleol (y DU)**
- **gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau sydd â'r awdurdodaeth angenrheidiol yng ngwlad ei tharddiad**

Mewn achosion o'r fath, bydd yr amgueddfa'n penderfynu mewn modd agored a thryloyw ac ni fydd ond yn gweithredu ar ôl cael cydsyniad penodol gan awdurdod allanol. Bydd yr amgueddfa'n dogfennau pryd y bydd yr eithriadau hyn yn cychwyn.

14 Ysbeiliad

14.1 Bydd yr amgueddfa'n defnyddio'r datganiad egwyddorion 'Spoliation of Works of Art during the Nazi, Holocaust and World War II period', a gyhoeddwyd ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn 1999 gan y Comisiwn Amgueddfeydd ac Oriolau

15 Ailwladoli a Dychwelyd gwrthrychau a gweddillion dynol

15.1 Gall corff llywodraethu'r amgueddfa, gan weithredu ar gyngor staff proffesiynol yr amgueddfa, os oes rhai, benderfynu dychwelyd gweddillion dynol, oni bai ei fod wedi ei gynnwys yn yr 'Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd' a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005), gwrthrychau neu enghreifftiau i'r wlad neu at y bobl y daethant oddi wrthynt. Bydd yr amgueddfa'n gwneud penderfyniadau o'r fath ar sail bob achos yn unigol, yn unol â gofynion y gyfraith a chan ystyried yr holl oblygiadau moesegol a'r arweiniad sydd ar gael. Bydd hyn yn golygu y caiff y gweithdrefnau a ddisgrifir yn 16. 1-5, eu dilyn ond nid yw gweddill y gweithdrefnau yn briodol.

15.2 Bydd gwaredu gweddillion dynol o amgueddfeydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dilyn y gweithdrefnau yn yr 'Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd'.

16 Gweithdrefnau Gwaredu

16.1 Ymgwymerir â phob gwarediad drwy gyfeirio at Weithdrefnau Sylfaenol

SPECTRUM ar waredu.

- 16.2** Bydd y corff llywodraethu'n cadarnhau ei fod yn rhydd yn gyfreithlon i waredu eitem. Bydd cytundebau ar warediadau a wnaed gyda rhoddwyr yn cael eu hystyried.
- 16.3** Os ystyrir gwaredu gwrthrych amgueddfaol, bydd yr amgueddfa'n canfod a gafodd ei brynu gyda chymorth corff ariannu allanol. Mewn achosion o'r fath, glynir at unrhyw amodau a oedd ar y grant gwreiddiol. Gallai hyn gynnwys ad-dalu'r grant gwreiddiol a chyfran o'r elw os gwaredir yr eitem trwy werthiant.
- 16.4** Pan ysgogir gwarediad gan resymau curadurol, dilynir y gweithdrefnau a amlinellir isod a gall y dull gwaredu fod trwy rododi, gwerthiant, cyfnewid neu, os bydd popeth arall yn methu, trwy ddinistrio.
- 16.5** Y corff llywodraethu a fydd yn gwneud y penderfyniad i waredu deunydd o'r casgliadau, a hynny dim ond ar ôl ystyried y rhesymau dros waredu yn llawn. Bydd ffactorau eraill yn cynnwys y budd cyhoeddus, y goblygiadau i gasgliadau'r amgueddfa a chasgliadau a ddelir gan amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu'r un deunydd neu mewn meysydd perthnasol yn cael eu hystyried. Ceir cyngor arbenigol a cheisir barn rhanddeiliaid fel rhoddwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a ffynhonnell ac eraill y mae'r amgueddfa yn eu gwasanaethu.
- 16.6** Bydd y penderfyniad i waredu eitem neu wrthrych, boed hynny drwy rododi, cyfnewid, gwerthu neu ddinistrio (yn achos eitem sydd wedi'i difrodi neu sydd wedi dirywio i'r fath raddau fel na ellir ei defnyddio i gyflawni dibenion y casgliadau neu am resymau iechyd a diogelwch), yn gyfrifoldeb i gorff llywodraethu'r amgueddfa a fydd yn dilyn cyngor y staff curadurol proffesiynol, os oes rhai, ac nid curadur neu reolwr y casgliad yn gweithredu ar ei ben ei hun.
- 16.7** Ar ôl penderfynu gwaredu deunydd sydd yn y casgliad, rhoddir blaenoriaeth i'w gadw yn y maes cyhoeddus. Fe'i cynigir yn y lle cyntaf felly, drwy ei rododi neu drwy ei werthu, yn uniongyrchol i Amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n debygol o ddymuno ei dderbyn.
- 16.8** Oni chaiff y deunydd ei gaffael gan amgueddfa Achrededig y'i cynigiwyd iddi fel rhodd neu i'w werthu, yna caiff y gymuned amgueddfaol yn gyffredinol ei chynghori o'r bwriad i waredu'r deunydd yn y modd arferol drwy hysbysiad ar wasanaeth 'Canfod Gwrthrych' y Gymdeithas Amgueddfeydd, cyhoeddiad yn Museums Journal y Gymdeithas Amgueddfeydd neu mewn cyhoeddiadau ac ar wefannau arbenigol eraill (os yn briodol).
- 16.9** Bydd y cyhoeddiad ynghylch rhoddi neu werthu yn nodi nifer a natur yr eitemau neu'r gwrthrychau dan sylw, ac ar ba sail y trosglwyddir y deunydd i

sefydliad arall. Rhoddir blaenoriaeth i fynegiadau o ddiddordeb gan Amgueddfeydd Achrededig eraill. Caniateir cyfnod o ddau fis o leiaf ar gyfer mynegi diddordeb mewn derbyn y deunydd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, os na chafwyd unrhyw fynegiadau o ddiddordeb, gall yr amgueddfa ystyried gwaredu'r deunydd drwy ei drosglwyddo i unigolion neu gyrff eraill sydd â diddordeb, gan roi blaenoriaeth i sefydliadau sy'n eiddo i'r cyhoedd.

- 16.10 Bydd unrhyw arian a dderbynnir gan gorff llywodraethu'r amgueddfa yn sgil gwaredu eitemau yn cael ei ddefnyddio yn unig ac yn uniongyrchol er budd y casgliadau. Mae hyn fel arfer yn golygu prynu derbyniadau pellach. Mewn achosion eithriadol, gellir cyfiawnhau gwelliannau'n ymwneud â gofal casgliadau er mwyn bodloni neu fynd y tu hwnt i ofynion Achredu sy'n gysylltiedig â'r perygl o ddifrod i gasgliadau neu eu dirywiad. Defnyddir unrhyw arian a dderbynnir fel iawndal am ddifrod, colli neu ddinistrio eitemau yn yr un ffordd. Ceir cyngor gan Gyngor Celfyddydau Lloegr/CyMAL ar yr achosion hynny lle bwriedir i arian gael ei ddefnyddio ar gyfer gofal casgliadau.
- 16.11 Bydd yr arian a dderbynnir yn sgil gwerthiant yn cael ei ddyrannu fel bod modd dangos y caiff ei wario mewn modd sy'n bodloni gofynion y safon Achredu. Rhaid cyfyngu arian i gynaliadwyedd, defnydd a datblygiad y casgliad yn y tymor hir.
- 16.12 Cedwir cofnodion llawn o'r holl benderfyniadau a wneir i gael gwared â'r eitemau dan sylw a gwneir trefniadau priodol ar gyfer cadw a/neu drosglwyddo, fel sy'n briodol, y ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r eitemau dan sylw, yn cynnwys cofnodion ffotograffig os yw hynny'n ymarferol, yn unol â Gweithdrefn SPECTRUM ar dad-dderbyn a gwaredu.

Gwaredu trwy gyfnewid

- 16.13 Mae natur gwaredu trwy gyfnewid yn golygu na fydd yr amgueddfa o reidrwydd mewn sefyllfa i gyfnewid y deunydd gydag amgueddfa Achrededig arall. Bydd y corff llywodraethu felly yn sicrhau bod materion yn ymwneud ag atebolrwydd a didueddrwydd yn cael eu hystyried yn ofalus i osgoi dylanwadu'n ormodol ar ei broses gwneud penderfyniadau.
- 16.13.1 Mewn achosion lle mae'r corff llywodraethu, am resymau curadurol cadarn, yn dymuno cyfnewid deunydd yn uniongyrchol ag amgueddfeydd Achrededig neu amgueddfeydd heb achrediad, gyda sefydliadau eraill neu unigolion, dilynir y gweithdrefnau ym mharagraffau 16.1-5.
- 16.13.2 Os argymhellir gwneud y cyfnewid gydag amgueddfa Achrededig benodol, hysbysir amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n casglu yn yr un meysydd neu feysydd perthnasol yn uniongyrchol o'r argymhelliad a gofynnir am eu sylwadau

16.13.3 Os argymhellir gwneud y cyfnewid gydag amgueddfa heb Achrediad, math arall o sefydliad, neu unigolyn, bydd yr amgueddfa'n rhoi hysbysiad ar wasanaeth rhestru gwefan Canfod Gwrthrych y Gymdeithas Amgueddfeydd neu'n gwneud cyhoeddiad yn y Museums Journal, ac mewn cyhoeddiadau ac ar wefannau arbenigol eraill (os yn briodol).

16.13.4 Mae'n rhaid i'r hysbysiad a'r cyhoeddiad ddarparu gwybodaeth ar nifer a natur y sbesimenau neu'r gwrthrychau perthnasol yng nghasgliad yr amgueddfa a'r rheiny y bwriedir eu derbyn trwy gyfnewid. Mae'n rhaid caniatáu cyfnod o ddau fis o leiaf ar gyfer derbyn sylwadau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y sylwadau cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar y cyfnewid.

Gwaredu trwy ddinistrio

16.14 Os nad yw hi'n bosibl gwaredu gwrthrych trwy ei drosglwyddo neu'i werthu, gallai'r corff llywodraethu benderfynu ei ddinistrio.

16.15 Mae'n dderbyniol dinistrio deunydd o arwyddocâd cynhenid isel (dyblygiadau o eitemau sydd wedi'u cynhyrchu ar raddfa eang neu sbesimenau cyffredin heb darddiad arwyddocaol) os nad oes modd dod o hyd i ddewis arall.

16.16 Mae dinistrio hefyd yn ddull derbyniol o waredu os yw gwrthrych mewn cyflwr arbennig o wael, os oes risgiau iechyd a diogelwch sylweddol ynghlwm wrtho neu os yw'n rhan o gais profi dinistriol cymeradwy a nodwyd ym mholisi ymchwil sefydliad.

16.17 Os oes angen, ceisir cyngor arbenigol i sefydlu'r dull priodol o ddinistrio. Cynhelir asesiadau iechyd a diogelwch gan staff hyfforddedig pan fo hynny'n ofynnol.

16.18 Dylai aelod o weithlu'r amgueddfa fod yn dyst i'r broses o ddinistrio gwrthrychau. O dan amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl, ee dinistrio sylweddau a reolir, dylid sicrhau tystysgrif yr heddlu a'i chadw yn ffeil hanes y gwrthrych dan sylw.